**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyflawni Corfforaethol Newid yn yr Hinsawdd

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Llun, 16 Ionawr 2023 am 5.30 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd K M Roberts (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | C R Doyle | D H Hopkins |
| O G James | S E Keeton | H Lawson |
| A J O'Connor | S J Rice | |

**Hefyd yn Bresennol:**

| | |
|---|---|
| C Anderson | Aelod y Cabinet dros Gymunedau |
| D H Hopkins | Dirprwy Arweinydd y Cyngor |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Simon Aspland | Rheolwr y Prosiect |
| Geoff Bacon | Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo |
| Phillip John | Rheolwr y Prosiect |
| Rachel Lewis | Rheolwr y Prosiect |
| Alex O'Brien | Rheolwr Eiddo |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Jane Richmond | Rheolwr Prosiect – Newid yn yr Hinsawdd Strategol |
| Kristy Tillman | Rheolwr y Prosiect |
| Mark Wade | Pennaeth Tai ac Iechyd y Cyhoedd |
| Joe Watkins | Corporate Landlord and Energy Officer |
| Jonathan Wills | Cyfreithiwr Arweiniol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): A S Lewis, N L Matthews a/ac D Phillips

---

**25 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**26 Cofnodion:**

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion Pwyllgor Cyflawni Corfforedig Newid yn yr Hinsawdd a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2022 a'u llofnodi fel cofnod cywir.

**27 Ynni Adnewyddadwy.**

Cyflwynodd Geoff Bacon, Pennaeth Gwasanaethau Eiddo, adroddiad diweddaru cynnydd i'r pwyllgor.

Amlinellwyd bod y prosiectau yr oedd swyddogion yn gweithio arnynt ar hyn o bryd yn cynnwys y canlynol:-

- Ôl-osod - ymchwilio i leihau allyriadau gyda thechnoleg well ac adnoddau adnewyddu ar y safle. Cyfeiriwyd at hyn yn benodol yn y cynllun cyflawni Sero-Net gyda'r nod o leihau allyriadau gwerth 4,438 tCO2 (2030).
- Fferm Solar - datblygu fferm solar 2.4MW yn Nhir John yn ogystal ag ymchwilio i gyfleoedd datblygu posib eraill (2050).
- Eden Las - prosiect adnewyddu integredig sy'n cynnwys y morlyn llanw (2050).
- Fferm wynt - ymchwilio i botensial ar gyfer datblygiadau mawr o fewn cyfyngiadau'r polisi perchnogaeth a chynllunio (2050).
- Prosiect ôl-osod peilot ar gyfer tai i ddatgarboneiddio cartrefi sy'n eiddo i'r cyngor yn unol â gofynion tebygol Safon Ansawdd Tai Cymru diwygiedig Llywodraeth Cymru trwy uwchraddio insiwleiddio a gosod technolegau adnewyddadwy.

Ychwanegwyd, ac eithrio'r morlyn llanw a'r cynllun peilot tai, bod yr holl brosiectau a restrwyd yn cael eu cyflawni gyda chefnogaeth gan Wasanaethau Ynni Llywodraeth Cymru, a oedd wedi helpu sefydliadau cymunedol a'r sector cyhoeddus yng Nghymru i leihau’r defnydd o ynni, cynhyrchu ynni adnewyddadwy sy’n eiddo i’r ardal leol a lleihau allyriadau carbon.

Y cam mawr nesaf ar gyfer y cyngor fyddai llunio Cynllun Ynni Ardal Leol (CYAL), sef cynllun strategol, o fewn ardal ddaearyddol ddiffiniedig, ar gyfer sut byddai'r systemau ynni'n cael eu datgarboneiddio. Byddai'n arwain at gynllun gofodol wedi'i ariannu'n llawn sy'n nodi'r newid y mae ei angen i'r system ynni leol a'r amgylchedd adeiledig, sy'n nodi 'beth, ble a phryd a chan bwy'.

Darparwyd manylion ynghylch y materion y byddai’r CYAL yn mynd i'r afael â nhw, rhanddeiliaid rhanbarthol, gan gynnwys penodi cwmni arbenigol i gefnogi pob rhanbarth. Penodwyd City Science i weithio gyda rhanbarth de-orllewin Cymru a byddai'r pwyllgor yn rhan o’r gwaith o ymgysylltu â rhanddeiliaid unwaith y byddant wedi dechrau.

Trafododd y pwyllgor y canlynol: -

- Cyfleoedd ar gyfer arweiniad cynllunio arbennig o ran ynni.
- Cyfleoedd ar gyfer ystyried microgynhyrchu mewn perthynas â materion eiddo'r cyngor.
- Edrych ar dechnoleg fwy modern mewn perthynas â batris solar.
- Ailosod asedau'r cyngor, e.e. ysgolion, canolfannau cymunedol, llyfrgelloedd i'w gwneud yn fwy ynni effeithlon.
- Inswleiddio cartrefi mewn modd mwy effeithiol yn ystod misoedd yr haf a'r gaeaf.

- Mwyafu'r CYAL yn rhanbarthol, yr ymagwedd gadarnhaol tuag at y mater o fewn rhanbarth y de-orllewin.
- Llywodraethu'r rhanbarth a'r amserlen wrth symud ymlaen, gan gynnwys cyfranogiad y pwyllgor fel rhanddeiliad.
- Manylion penodol ynghylch pwy fydd yn cymryd rhan fel rhanddeiliaid a dod â nhw ynghyd wrth symud ymlaen.
- Gwaith i wella tai’r cyngor yn y dyfodol hefyd yn cael eu cynnig i berchnogion hen dai'r cyngor a brynwyd, gan roi'r cyfle iddynt 'brynu i mewn' i gynlluniau, yn enwedig yn yr un lleoliad â gwaith gwella arfaethedig.
- Ymgynghori’n effeithiol â chymunedau ynghylch microgynhyrchu, yn enwedig o ran budd cymunedol, o gynigion ac arian o gynigion o'r fath yn cael eu darparu i'r gymuned leol yr effeithier arni’n uniongyrchol.
- Materion a fydd yn cael eu nodi yn y CYAL a'r heriau i Abertawe yn ei chyfanrwydd.
- Ymchwil a gwblhawyd gan ffynonellau eraill am Abertawe, e.e. Prifysgol Warwig.
- Effeithlonrwydd ynni, gan ei gymell i annog pobl i newid a phwysigrwydd addysgu/hyfforddi pobl ar y materion.

**Penderfynwyd** bod y pwyllgor yn cefnogi cyfeiriad y gwaith a gwblhawyd hyd yma.

## 28 Cynllun Gwaith

Cyflwynodd y Cadeirydd y cynllun gwaith diweddaredig ar gyfer 2022-23 'er gwybodaeth'.

Daeth y cyfarfod I ben am 6.06 pm

**Cadeirydd**